**BEIRNIADAETH CYSTADLEUAETH DAN 25 OED: NEWYDDIADURIAETH**

**BEIRNIAD: GETHIN MORRIS WILLIAMS**

**Safle 1af**

**Robin**

Mae Robin wedi dewis testun sy'n codi'r llen ar sicrhau diogelwch gweithwyr ifanc yn y gweithle. Mae'n ddewis difyr ac yn faes na chlywir amdano yn aml. Mae hyn yn dangos greddf naturiol Robin am stori.

Rhaid canmol Robin am fynd ati i gael dyfyniadau a chyfweliadau gan gyfranwyr. Mae hyn yn cynnwys y greal sanctaidd o gael enghraifft benodol o berson sydd wedi dioddef ac sy'n dod a'r elfen bersonol yna y gall darllenwyr, gwrandawyr a gwylwyr uniaethu a nhw.

Mi fydde defnyddio dyfyniad cryfach a geir oddi fewn yr erthygl sef "Fi dal yn teimlo'n bryderus heddi wrth siarad â dynion sy'n dod at y cownter ar eu pen ei hun." Fel rhan o'r teitl wedi bod yn fwy pwerus." Mae'n bwysig edrych nol ar gyfweliadau er mwyn cael y dafnyn bach o ddyfyniad sy'n mynd i ddenu sylw gwrandäwr ar unwaith. Yn ychwanegol fe fyddai wedi bod yn fwy trawiadol i ti gychwyn dy erthygl drwy son am brofiad Efa Lynch. Mi fydde darllenwyr o ddarllen am ei phrofiad hi yn fy marn i yn cael eu denu i ddarllen mwy.

Rhaid dy ganmol am gynnwys dyfyniadau gan wleidyddion lleol gan fod adrodd stori yn ddiduedd gan gynnwys dwy ochr y ddadl yn ran hanfodol o waith unrhyw newyddiadurwr safonol.

Mae'n drueni na wnest ti gynnwys lluniau i gydfynd a'r erthygl. Lluniau cyffredinol o ganolfan siopa Trostre, luniau o'r cyfranwyr. Ond llongyfarchiadau am gyflwyno stori alle fod yn brif stori newyddion ar agwedd o fywyd pobl ifanc. Yn bendant mae dyfodol disglair i ti fel newyddiadurwr – Dalier ati.

**Safle 2il**

**Heulwen**

Cawn yma destun sydd wedi corddi'r dyfroedd yma yng Nghymru ers degawdau – Boddi ardal pentref Capel Celyn. Er yn stori o'r gorffennol, mae ymgais yma i fynd ati i ddangos ei fod yn parhau'n bwnc sydd o bwys i bobl ifanc yn yr oes gyfredol.

Mae cyffyrddiadau pwerus yma. Hoffais yn enwedig

"Caewyd yr Ysgol...gwagwyd y capel...... taflwyd trigolion allan o'u cartrefi"

Ar ffurf sain y mae’r gwaith wedi ei gyflwyno - ac mae’n rhaid canmol yr ymdrech greadigol i gynnwys elfennau fel cerddoriaeth “Colli Iaith” i agor yr eitem. Yr un modd defnyddwyd darn o gerdd “Etifeddiaeth” Gerallt Lloyd Owen ac yna diweddu gyda “Tryweryn” gan Meic Stevens. Mae defnyddkio elfennau fel hyn yn yn sicrhau sylw’r gwrandawyr. Serch hynny, mae talp dros ddeugain eiliad o “Colli Iaith” cyn clywed llais y cyflwynydd yn rhy hir. Y tro nesaf mi fydde byrhau’r gerddoriaeth a dod a dy lais a fewn yn gynt yn fwy slic. Ar y llaw arall roedd y defnydd o gerddoriaeth “Tryweryn” ar y diwedd yn gorffen yn rhy swta.

Elfen hanfodol ar gyfer gwaith newyddiadurwr yw i geisio cyfleu dwy ochr y ddadl. Ni chafwyd hynny fan hyn. Roedd tuedd i fod yn areithiol a dim ond cyfeirio at effaith negyddol boddi Cwm Celyn a gafwyd.Mae cyfeiriad at y Llywodraeth “Hyd Heddiw yn trin ein ffermwyr fel baw”. Mi fydde rhaid cynnwys ymateb neu safbwynt y Llywodraeth er mwyn sicrhau gwaith newyddiadurol di duedd.

Gwendid arall yw mai llais y cystadleuwr yn unig a gawn fan hyn. Mi fydde wedi cryfhau’r eitem o gaell lleisiau cyfoedion ifanc yn mynegi eu barn, Ymateb pobl o’r ardal fydde wedi bod yn dyst I’r hyn ddigwyddodd neu oedd wedi protestio ac ymateb y Llywodraeth o ran y feirniadaeth gyfredol a fynegwyd.

Mae’r sgript wedi ei ysgrifennu mewn Iaith goeth a graenus. Mae hynny’n hanfodol ar gyfer pob newyddiadurwr. Rwy’n dy annog i fireinio sgiliau eraill angenrheidiol newyddiadura. O wneud hynny does gen i ddim amheuaeth y byddi fel egin newyddiadurwr yn blodeuo

**3ydd**

**Llais Afon Gwy**

Mae Llais Afon Gwy yn cyflwyno darn sy’n olhrain ei thaith o’r canolbarth gyda’i ffrindiau i fwynhau ymweliad a thref glan y mor Aberystwyth.

Mae’n amlwg fod gen ti ddawn dweud stori ac mae hynt a helynt ti a dy ffrindiau yn cael ei gyfleu mewn modd manwl, disgrifiadol a chyffrous

Diolch i ti am gystadlu – ond teimlaf nad ydi’r gwaith yn cyfateb i ofynion y gystadleuaeth sef cyflwyno prif eitem newyddion ar unrhyw agwedd o fywyd pobl ifanc .Hanes dy daith gawsom fan hyn yn hytrach na stori newyddion.

Efallai y bydde wedi bod yn well datblygu dy syniad am adrodd hanes taith dy ffrindiau gyda testun fel “Pwysigrwydd mwynhau yn yr awyr agored” gan gynnwys sylwadau gan arbenigwyr iechyd o ran pa mor llesol i iechyd meddwl pobl ifanc ydi cael bod yn yr awyr agored . Mae’n ddywediad cyffredin ym maes newyddiaduraeth i chwilio am y “peg”, neu fachyn stori - hynny ydi datblygu dy drwyn am stori. Fe allai fod yn bwnc neu fater

sy’n poeni pobl wrth deithio ar fws ysgol neu sefyllfa trafnidiaeth gyhoeddus yn y canolbarth yng nghyd destun dy stori di ar gyfer y gystadleuaeth

Yn sicr mae mae dy waith yn dangos addewid a hoffwn dy weld yn datblygu fel newyddiadurwr. Rwy’n dy annog i ddal ati ac i wrando ar raglenni newyddion, i ddarllen erthyglau papur newydd ac erthyglau ar y we ac i wylio eitemau newyddion ar y teledu er mwyn i ti allu cryfhau yr elfennau angenrheidiol ar gyfer y grefft o newyddiadura.